

PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Llun, 8 Mawrth 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, K.V. Broom, D.M. Cundy, W.R.A. Davies, H.L. Davies, G.H. John, J.K. Howell, C. Jones, K. Madge, J.G. Prosser, D.E. Williams a/ac J.S. Edmunds

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 2.00 - 3.45 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. "GALW I MEWN" PENDERFYNIAD GWEITHREDOL - TIR YM MHENPRYS, LLANELLI

Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn anfantais faterol i'r

awdurdod mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon, a gallai cael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.

Amlinellodd y Cadeirydd ddiben y cyfarfod sef ystyried cais gan y Cynghorwyr Rob James, Gary Jones, Deryk Cundy, Dot Jones, Andre McPherson a Kevin Madge, o dan ddarpariaethau Erthygl 6.7 o Gyfansoddiad y Cyngor i alw i mewn penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021 (gweler cofnod penderfyniad 12) mewn perthynas â Thir ym Mhenprys , Llanelli, am y rhesymau canlynol: "Rydym yn ei alw i mewn gan nad ydym yn credu bod y penderfyniad yn cydymffurfio â pholisi'r cyngor ac nad yw er budd y cyhoedd".

Croesawyd y Cynghorydd Rob James i'r cyfarfod ynghyd â Jason Jones, Pennaeth Adfywio a Peter Edwards, Rheolwr Prisio.

Eglurodd Mr Jones gefndir yr adroddiad gwreiddiol gan gyfeirio'n benodol at bolisiâu'r Cyngor a ystyriwyd ac yn dilyn hynny ymatebodd i gwestiynau gan aelodau.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Rob James i ymhelaethu ar y rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn. Cyfeiriodd yn benodol at y canlynol:

- Nid oedd y penderfyniad yn adlewyrchu nac yn cefnogi uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac y dylai colli tir amaethyddol at ddibenion datblygu fod yn opsiwn olaf oll pan fod safleoedd tir llwyd eraill ar gael;
- Nid oedd y penderfyniad yn cyd-fynd ag amcanion llesiant y Cyngor gan y byddai'n cael effaith andwyol ar amwynder yr amlosgfa gyfagos;
- Nid oedd gwaredu mannau gwyrdd ar gyfer derbyniadau cyfalaf yn cyd-fynd â chynigion y Cyngor i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dod yn awdurdod di-garbon.

Yna, atebodd y Cynghorydd James gwestiynau gan aelodau ac yn dilyn hynny, gadawodd ef, ynghyd â Jason Jones, Pennaeth Adfywio a Peter Edwards, Rheolwr Prisio, y cyfarfod. Wedyn aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried y cais a 'alwyd i mewn' gan gofio'r tri opsiwn sydd ar gael o dan Erthygl 6.7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Ni chafodd cynnig i beidio â gwrthwynebu'r penderfyniad ei wneud.

PENDERFYNWYD y dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y Bwrdd Gweithredol i'w ystyried ymhellach gan roi sylw penodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r goblygiadau ar gyfer Amlosgfa Llanelli.

CADEIRYDD

DYDDIAD